Gorfwcio (Gwyliau/teithio)

Beth ddywed y gyfraith

Os ydyw'ch cynlluniau gwyliau yn newid o ganlyniad o **orfwcio**, mae'n debygol fod y **cytundeb** rhyngoch chi a darparwr y gwyliau neu lety wedi'i dorri. Pan dorrir cytundeb fel hyn, mae gennych hawl i wneud cais am **iawndal** neu **ad-daliad** oddi wrth y **darparwr.**

Yn ôl y gyfraith, mae'r cytundeb yn cynnwys pethau megis amodau'r archeb wedi'u hargraffu ar gefn y tocyn, llythyr yn cadarnhau archeb a'r wybodaeth a roddir yn y llyfryn neu gan yr asiant teithiau.

Os oes gennych broblem gyda gorfwcio mewn cyswllt â **gwyliau pecyn**, fe fyddwch chi fel arfer yn cymryd camau yn erbyn y **trefnydd teithiau**, **nid** darparwr y cludiant neu'r llety.

Os ddefnyddioch chi eich cerdyn credyd i dalu am y llety neu daith a bod y gost dros £100, mae'n debyg y bydd y cwmni cerdyn credyd **yr un mor atebol** am unrhyw dor cytundeb. Mae hyn yn golygu y gallwch chi hawlio ad-daliad oddi wrth y cwmni cerdyn credyd.

Teithiau hedfan wedi'u gorfwcio

Mae yna reolau arbennig ynghylch teithiau hedfan sydd wedi'u gorfwcio o feysydd awyr yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rheolau yn berthnasol hefyd i deithiau hedfan o feysydd awyr y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ond sy'n hedfan i mewn i faes awyr yn yr Undeb Ewropeaidd, ar gwmni hedfan Undeb Ewropeaidd. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol dim ond os gwrthodwyd i chi fynd ar yr awyren, nid os gynigioch chi fynd ar daith hedfan arall. O dan y rheolau hyn fe allwch chi gael iawndal am y gorfwcio, cyhyd â'ch bod yn cwrdd ag amodau arbennig. Rhaid i chi gael tocyn dilys, sydd wedi'i gadarnhau ar gyfer y daith hedfan sydd wedi'i gorfwcio, a rhaid eich bod chi wedi cofrestru erbyn yr amser terfynol a roddwyd i chi gan y cwmni hedfan.

Cyhyd â'ch bod yn cwrdd â'r holl amodau hyn fe fydd gennych hawl:

- i gael ad-daliad llawn am eich tocyn a thaith hedfan yn ôl am ddim i fan cychwyn eich taith, os bydd angen un arnoch; *neu*
- taith hedfan arall cyn gynted ag sy'n bosibl neu ar ddyddiad diweddarach o'ch dewis.

Fe fydd gennych hawl hefyd:

- i gael iawndal mewn arian parod, neu siec neu drosglwyddiad banc. Bydd y swm gewch chi yn dibynnu ar hyd y daith a pha mor hwyr y byddwch chi'n cyrraedd diwedd eich taith; *a*
- dwy alwad ffôn, neu e-byst, neu delecs neu ffacs; *a*
- prydau bwyd a lluniaeth rhesymol os bydd rhaid i chi aros am daith hedfan hwyrach; *a*
- llety mewn gwesty os bydd yr oedi yn golygu aros dros nos

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydyw'ch taith hedfan wedi'i gorfwcio dylai'r cwmni hedfan roi ffurflen i chi sy'n nodi pa iawndal sydd ar gael.

Os nad yw'r rheolau sy'n berthnasol i deithiau awyren yr UE yn berthnasol, efallai y byddwch chi o hyd yn gallu cael iawndal am orfwcio. Bydd angen i chi wirio gyda'r cwmni hedfan os oes iawndal ar gael ar gyfer eich amgylchiadau arbennig chi.

Os nad yw'ch taith hedfan yn cael ei **gwarchod gan gynllun iawndal**, efallai y gallwch o hyd gael iawndal trwy gymryd achos yn y llys am **dor cytundeb**. Hefyd **gwiriwch eich yswiriant teithio** i weld os ydyw'n eich gwarchod rhag oedi a achosir gan orfwcio. Os ydyw, hwyrach y bydd yn haws i chi hawlio ar eich yswiriant na thrwy'r llysoedd.

Gorfwcio ar fathau eraill o gludiant

Os oeddech chi wedi archebu taith ar **fferi** neu fad gyffelyb, a chwithau'n methu teithio oherwydd gorfwcio, efallai y gallwch hawlio **iawndal** oddi wrth y darparwr, ar sail **tor cytundeb**. Fe allech hawlio swm am unrhyw golled brofoch chi o ganlyniad i'r gorfwcio, er enghraifft, cost aros mewn gwesty hyd nes yr hwyliad nesaf. **Gwiriwch eich yswiriant teithio** hefyd er mwyn gweld os ydyw'n eich gwarchod rhag oedi o ganlyniad i orfwcio. Os ydyw, hwyrach y bydd yn haws i chi hawlio ar eich yswiriant na thrwy'r llysoedd.

Fyddech chi ddim â hawl i gael iawndal os oeddech chi'n teithio mewn **coets** neu **drên** oni bai fod gennych docynnau ar gyfer gwasanaeth penodol, er enghraifft, y trên cyflym 10:51 o Lundain i Gaeredin.

Os archebwyd y cludiant fel rhan o **becyn gwyliau**, bydd angen i chi hawlio oddi wrth y **trefnydd teithiau**.

Llety wedi'i orfwcio

Os oedd eich llety wedi'i orfwcio a chwithau'n methu aros yno, dylai'r darparwr gynnig i chi:

- **ad-daliad llawn;** *neu*
- **llety arall** o safon gyffelyb i'r un a archebwyd gennych. Os nad oeddech chi'n **fodlon â'r llety arall**, fe allwch hawlio iawndal dim ond os ddywedoch chi'n ddigon clir ar y pryd eich bod yn derbyn y llety arall **'dan brotest'**. Hyd yn oed wedyn, mae cais am iawndal yn debygol o fod yn llwyddiannus dim ond os oedd y llety arall o **safon is** i'r un a archebwyd gennych, neu os ddywedoch chi'n ddigon clir pan archeboch chi ei fod yn bwysig i chi aros mewn **math arbennig o lety**, er enghraifft, un oedd yn rhoi mynediad i gadair olwyn neu un oedd yn agos at gyfleusterau chwaraeon.

Sut i ddatrys eich problem

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth yw'ch hawliau, bydd angen i chi gysylltu â'r cwmni sy'n gyfrifol am ddarparu'r cludiant neu lety. Dylai'r camau canlynol ddatrys eich problem:

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- **cysylltwch â'r cwmni,** a'r cwmni cerdyn credyd os yn berthnasol, cyn gynted ag sy'n bosibl. Cadwch gopïau o'ch llythyron. Esboniwch eich problem yn bwyllog ond yn gadarn a gofyn am yr hyn y dymunwch, **ad-daliad** neu **iawndal.** Anfonwch **brawf** o'ch archeb, yn cynnwys dyddiadau'ch gwyliau, llythyr cadarnhad neu docynnau. Anfonwch **dystiolaeth wedi'i lungopïo** o unrhyw **gostau ychwanegol**, er enghraifft, derbynebau gwesty, os ydych chi'n hawlio iawndal. Anfonwch gopi o'ch llythyr at y **trefnydd teithiau**, os arcebwyd trwyddyn nhw.

- **Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb** ac wedi archebu trwy drefnydd teithiau, ceisiwch wybod os ydyw'r trefnydd yn aelod o **Gymdeithas Trefnwyr Gwyliau Prydain (ABTA)** neu **Gymdeithas Trefnwyr Teithiau Annibynnol (AITO).** Mae'r ddau sefydliad yma yn gweithredu gwasanaeth cymodi i helpu i ddatrys anghydfodau**.** Mae cymodi fel arfer am ddim**.**. Codir tâl am gyflafareddu a bydd unrhyw benderfyniad yn **rhwymo'n gyfreithiol** ac yn debygol o'ch rhwystro chi rhag cymryd achos llys. Fe allwch ddod o hyd i fanylion am ABTA a AITO ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

- **Os ydych chi'n penderfynu peidio defnyddio cymodi na chyflafareddu,** ysgrifennwch at berchennog/rheolwr y cwmni a'r cwmni credyd, lle mae'n briodol, gan ail adrodd eich cwyn a'r camau a gymerwyd gennych hyd yn hyn. Dywedwch eich bod yn rhoi 14 o ddiwrnodau iddynt i ddatrys y broblem neu fe fyddwch yn ystyried cymryd camau cyfreithiol. Anfonwch y llythyr gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi** gyda chopi i'r brif swyddfa'r cwmni, os yn berthnasol. **Cadwch gopïau** o bob llythyr a nodyn o unrhyw alwadau ffôn mewn cysylltiad â'r broblem.

- **os ydyw'r cwmni yn rhoi cynnig i chi,** fe allwch naill ai ei dderbyn neu barhau i **drafod.** Byddwch yn realistig yn yr hyn y byddwch yn ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys.

- **os nad yw'r cwmni yn ymateb,** yn gwrthod gwneud unrhyw beth, neu'n gwneud cynnig terfynol nad ydych yn fodlon ei dderbyn, yr unig ddewis arall sydd gennych yw mynd i'r llys. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf.** Cyn dechrau achos llys mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o **dystiolaeth.** Mae angen i chi ddarganfod hefyd os oes gan y cwmni **ddigon o arian i dalu eich hawliad**. Nid yw'n werth erlyn person neu gwmni sydd heb arian.

Os ydych chi wedi colli arian oherwydd gorfwcio, peidiwch â gwastraffu mwy o arian ar achos na allwch ei ennill.

Sefydliadau sy'n delio â chwynion am orfwcio

Cymdeithas Trefnwyr Gwyliau Prydain (ABTA)

Mae ABTA yn cynrychioli asiantau teithiau ac mae ganddo god ymarfer y mae'n rhaid i'w aelodau ei ddilyn. Os oes un o'i aelodau yn torri'r cod ymarfer, bydd adran gyfreithiol ABTA yn ymchwilio'r mater yn fewnol ond nid yw'n cymryd achosion ar ran cwsmer. Mae ABTA yn gweithredu cynllun cyflafareddu. Mae yna gyfyngiad i'r

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

swm y gallwch ei hawlio o dan y cynllun hwn ac nid yw'n delio ag achosion sy'n ymwneud ag iawndal am salwch neu anaf. Fe allwch gysylltu â nhw ar 020 7637 2444. Mae yna ffi, ond ad-delir hwn os yw'r cais yn llwyddiannus. Y dyddiad terfyn ar gyfer gwneud cais am ddefnyddio'r gwasanaeth ydyw naw mis o ddiwedd y gwyliau

Cymdeithas Trefnwyr Teithiau Annibynnol (AITO)
Mae AITO yn cynrychioli trefnwyr teithiau annibynnol ac mae ganddo god ymarfer y mae'n rhaid i bob aelod ei ddilyn. Mae hefyd yn gweithredu gwasanaeth cyflafareddu annibynnol. Os ydych chi am ddefnyddio'r gwasanaeth hwn mae yna ffi na ellir ei ad-dalu. Cysylltwch ag AITO ar: **020 8744 9280**

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dechrau achos llys
- Gwyliau Pecyn
- Credyd

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Mawrth 2005, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr